At Weinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adran 7(3) a 10(2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, isod, dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer 2017-2018.

| | |
|---|---|
| Y camau sydd wedi'u cymryd i hybu teithiau llesol | Darparwyd hyfforddiant Kerbcraft i 349 disgybl ysgol gynradd.<br><br>Darparwyd hyfforddiant seiclo Safonau Cenedlaethol i 478 disgybl ysgol gynradd.<br><br>Hyrwyddwyd a chefnogwyd wythnos cerdded i'r ysgol gan y Swyddog Diogelwch y Ffyrdd mewn nifer o ysgolion cynradd.<br><br>Mae'r Awdurdod yn parhau i ddarparu cefnogaeth swyddfa a gweinyddol i Swyddog Ysgolion Sustrans ar gyfer Gorllewin Cymru.<br><br>Mae Swyddog Ysgolion Sustrans wedi parhau i hyrwyddo Teithio Llesol Sustrans fel rhan o raglen Ysgolion Cynradd yng Ngheredigion a bu i 7 ysgol lwyddo i gael eu derbyn i ail flwyddyn y rhaglen uchod. Mae Sustrans wedi parhau i gefnogi'r 10 ysgol o flwyddyn gyntaf y rhaglen.<br><br>Lluniwyd datganiadau i'r Wasg yn lleol er mwyn hyrwyddo gwaith a ariennir drwy grant ar gyfer Teithio Llesol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Gwelwyd y datganiadau yma hefyd ar wefan y Cyngor a safleoedd cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Fapio Rhwydwaith Integredig ei hyrwyddo ar wefan y Cyngor a safleoedd Cyfryngau Cymdeithasol, gan sicrhau bod gwybodaeth ymgynghori perthnasol a mapiau ar gael ar wefan Teithio Llesol.<br><br>Yn dilyn derbyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru, diweddarwyd y mapiau ar wefan Teithio Llesol. Ychwanegwyd cysylltiadau i safleoedd perthnasol hynny yw 'Lle', gwefan mapio teithio llesol Llywodraeth Cymru a 'Darganfod Ceredigion' gyda manylion am gyfleoedd seiclo a cherdded yng Ngheredigion.<br><br>Llwythwyd Adroddiad Teithio Llesol Blynyddol 2016/17 a gwybodaeth atodol ar wefan Teithio Llesol.<br><br>Darparwyd dau sgwter a helmed newydd i Ysgol |

| | |
|---|---|
| | Bro Pedr ac Ysgol Gynradd Penrhyncoch.<br><br>Lluniwyd taflen i hyrwyddo pecyn 2 flynedd o welliannau Teithio Llesol yn Ysgol Bro Pedr Llanbed Pont Steffan i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni a staff i'w hannog i gymryd mwy o siwrneiau heb gar i'r ysgol, y ganolfan hamdden, y pwll nofio a gwasanaethau a chyfleusterau eraill yn yr ardal. Mae'r daflen ynghlwm mewn dogfen ar wahân. |
| Y camau sydd wedi'u cymryd i ddiogelu llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau cysylltiol a gwelliannau | Gweler dogfen ar wahan o'r enw 'Adroddiad Teithio Llesol Ceredigion 2017-18'. |
| Costau llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau teithio llesol cysylltiedig yn y flwyddyn ariannol flaenorol. | **Cronfa Drafnidiaeth Leol**<br>• Mapio Teithio Llesol £7,189<br><br>Ardal Teithio Llesol Aberteifi (Blwyddyn 2) £165,269*<br><br>• Pecyn Aberystwyth £253,641<br><br>**Llwybrau Diogel mewn Cymunedau**<br>Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan (Blwyddyn 2) £67,132*<br><br>• Cysylltiadau Troedffordd Ysgol Gynradd Penrhyncoch £162,583*<br><br>*yn cynnwys arian cyfatebol oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion a phartïon trydydd parti a nodwyd isod.<br><br>**Grant Refeniw Diogelwch Ffyrdd**<br>• Hyfforddiant Kerbcraft £16,050<br>• Hyfforddiant Seiclo Safonau Cenedlaethol £17,273 |

Yn ogystal â'r uchod (dewisol):

| | |
|---|---|
| Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol cyfredol ynghyd â chyfleusterau cysylltiedig sy'n cael eu hariannu'n llawn neu'n rhannol gan drydydd parti. | **Cronfa Drafnidiaeth Lleol**<br>• **Ardal Teithio Llesol Aberteifi**<br>£5,000 o arian cyfatebol oddi wrth Gyngor Tref Aberteifi.<br><br>**Llwybrau Diogel mewn Cymunedau**<br>• **Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan**<br>£6,200 o arian cyfatebol oddi wrth |

| | |
|---|---|
| | Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan<br><br>• **Ysgol Gynradd Penrhyncoch**<br>£2,000 o arian cyfatebol oddi wrth Gyngor Cymuned Trefeurig. |
| Hyd y llwybrau newydd:<br>- Cerdded<br>- Seiclo<br>- Cyd-ddefnyddio | <br>- 152 metr<br>- amherthnasol<br>- 815 metr |
| Hyd y llwybrau sydd wedi gwella:<br>- Cerdded<br>- Seiclo<br>- Cyd-ddefnyddio | <br><br>- 949 metr<br>- amherthnasol<br>- amherthnasol |
| Cyfleusterau teithio llesol gwell a newydd | Gosodwyd 2 Orsaf Trwsio Beiciau Gyhoeddus â phympiau teiars integredig yn Aberystwyth.<br><br>Cafodd y Groesfan i gerddwyr ar bwys Starling Cloud Aberystwyth ei lledu a'i huwchraddio i groesfan Twcan ar gyfer fel y gall seiclwyr yn ogystal â cherddwyr ei defnyddio.<br><br>Gosodwyd cysgodfan ychwanegol newydd ar gyfer 40 sgwter yn Ysgol Gynradd Plascrug, Aberystwyth.<br><br>Gosodwyd cysgodfan newydd ar gyfer 14 beic yn Ysgol Uwchradd Aberteifi.<br><br>Gosodwyd 4 croesfan bwrdd yn ardal Ysgol Uwchradd Aberteifi.<br><br>Gosodwyd ynys groesi newydd i gerddwyr ar Ffordd Aberystwyth, Aberteifi.<br><br>Crëwyd ardal parcio sgwteri a beiciau newydd yn Ysgol Iau Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan a oedd yn cynnwys: 1 cysgodfan newydd i sgwteri ar gyfer 40 sgwter, 1 cysgodfan beiciau newydd ar gyfer 10 beic, symud y gysgodfan beiciau gyfredol ar gyfer 10 beic a gosod ffens ddiogelwch newydd.<br><br>Gosodwyd Cysgodfan beiciau newydd ar gyfer 12 beic a llwybr mynediad newydd yn ochr disgyblion hŷn Ysgol Bro Pedr Llanbedr Pont Steffan. |

| | |
|---|---|
| | Gosodwyd 4 croesfan bwrdd yn ardal Ysgol Gynradd Penrhyncoch.<br><br>Gosod 2 *cyclehoop* ger y safle bws y tu allan i Swyddfa Bost Penrhyncoch. |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol):

| |
|---|
| Amherthnasol |

Gallaf gadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar lein ac ar gael fel copi caled i unrhyw un bydd yn gofyn amdano yn unol â'r Canllawiau Cyflawni statudol.

_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

Eifion Evans
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ceredigion

Awst 2018

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

## Adroddiad Teithio Llesol Cyngor Sir Ceredigion 2017-18

### Cyflwyniad

O dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) Act 2013, dynodwyd tair tref yng Ngheredigion fel lleoliadau teithio llesol– Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. Bu i'r Ddeddf roi dyletswyddau newydd ar Lywodraeth Cymru a'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Bu Ceredigion am nifer o flynyddoedd – ac y mae'n parhau i fod – ar flaen y gad wrth ddarparu cyfleusterau seiclo a cherdded addas ar draws y Sir yn gyfan gwbl, gan ddarparu mynediad mwy diogel i addysg, hyfforddiant, gwaith , gwasanaethau bob dydd a hamdden.

Roedd 2017-18 yn brysur iawn ac yn flwyddyn lwyddiannus ar gyfer Teithio Llesol a gwelliannau Llwybrau Diogel i'r Ysgol yng Ngheredigion am fod y Cyngor wedi derbyn £613,800 o arian grant oddi wrth Lywodraeth Cymru. Roedd y swm yma gyda £43,200 o arian cyfatebol ychwanegol yn golygu gwerth £657,000 o gynlluniau ar draws y Sir yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r cynlluniau gwerthfawr yma a ariannwyd gan grant yn gweddu i'r dim gyda gweithgareddau addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd Diogelwch y Ffyrdd y Cyngor ei hun (megis Kerbcraft a Hyfforddiant Seiclo Safonau Cenedlaethol), darparu Hebryngwyr Croesfannau Ysgol a chynlluniau rheoli traffig megis yr Adolygiad Terfynau Cyflymder a weithredwyd yn ddiweddar ar draws y Sir. Yn ogystal mae'r cynlluniau seilwaith yma'n cyd-fynd â chynlluniau diogelwch a gwelliannau Llywodraeth Cymru ar Gefnffyrdd y Sir megis cyflwyno terfynau cyflymder rhan amser o 20 mya y tu allan i ysgolion.

### Cronfa Drafnidiaeth Leol - Aberystwyth

Yn mis Rhagfyr 2017, bu i Lywodraeth Cymru roi grant Cronfa Drafnidiaeth Leol o £249,000 i'r Cyngor am becyn o welliannau Teithio Llesol yn nhref Aberystwyth. Roedd hyn yn cynnwys Cysgodfan Sgwteri yn Ysgol Gynradd Plascrug a 2 Orsaf Trwsio Beiciau newydd â phymiau teiars integredig (un y tu allan i Ganolfan Hamdden Plascrug a'r un wrth y brif fynedfa i Gampws Penglais Prifysgol Aberystwyth. Y brif elfen oedd gwella Llwybr Seiclo / Beicio Rheidol ar hyd Boulevard St Brieuc. Uwchraddiwyd 2 lwybr cul i lwybr â wyneb newydd 4 medr o led er mwyn i ddefnyddwyr rannu defnydd y llwybr. Cafodd y groesfan i gerddwyr y tu allan i'r Starling Cloud ei lledu a'i huwchraddio i Groesfan Twcan ar gyfer seiclwyr yn ogystal â cherddwyr yn y cyswllt prysur yma i'r ysgolion a'r Ganolfan Hamdden ar Goedlan y Parc. Cafodd y llwybr ar bwys yr Orsaf Heddlu ei ledu a'i wella ar hyd Coedlan y Parc a thrwy hynny crëwyd llwybr i'w rannu hyd at gyffordd Ffordd Glyndwr.

Plannwyd coed gellyg addurnol newydd mewn tyllau coed o ansawdd er mwyn hyrwyddo hir oes y coed a rheoli eu gwreiddiau ac osgoi effaith andwyol ar wasanaethau o dan y ddaear a chodi wyneb y llwybr. Mae'r cynllun wedi cynorthwyo ag uwchraddio'r trywydd yma a'i wneud yn borth mwy deniadol i mewn i Dref Aberystwyth gan hefyd fod o fudd i barc sglefrio newydd Kronberg ar Boulevard St Brieuc gan fod gwell mynediad i bobl fedru mwynhau'r cyfleusterau hamdden yma.

Nodir manylion llawn am y cynllun isod:

Lluniau'n dangos problemau parcio ar y droedffordd a thu ôl i'r droedffordd ar Goedlan y Parc:








Lluniau ar ôl y gwelliannau yn dangos llwybr mwy deniadol i mewn i Aberystwyth




Isod – coed newydd wedi eu plannu mewn tyllau coed o ansawdd er mwyn hyrwyddo hir oes y coed ac er mwyn rheoli'r gwreiddiau.



Isod:  Uwchraddiwyd y groesfan i groesfan Twcan er mwyn i seiclwyr a cherddwyr fedru ei defnyddio:





Cynllun blaenorol a oedd yn anniben ac yn cyfyngu ar ddefnydd y llwybr sy’n nodi 2 lwybr ar wahân:




Cynllun newydd â gwell mynediad gyda 1 llwybr llydan sy’n arwain erbyn hyn at Goedlan y Parc.





Mae’r cynllun yma hefyd yn cydweddu â pharc sglefrio Kronberg sy’n weithgaredd poblogaidd iawn gyda disgyblion ar ddiwedd y diwrnod ysgol:






Chwith: Cysgodfan ar gyfer Sgwteri a osodwyd yn Ysgol Gynradd Plascrug yn dilyn grant Cronfa Drafnidiaeth Leol yn 2015-16 gan fod mynd ar sgwter i'r ysgol yn hynod o boblogaidd ac nid oedd y cyfleusterau ar y pryd yn medru ymdopi â'r galw.

Isod: Cysgodfan sgwter ychwanegol newydd a osodwyd ym mis Ionawr 2018 sy'n medru dal 40 sgwter .  Maent yn boblogaidd iawn eisoes.

Mae Ysgol Plascrug yn ysgol enghreifftiol yn Rhaglen Siwrneiau Llesol Sustrans yng Ngheredigion ac y mae'r mesurau yma, yn ogystal â gwelliannau i isadeiledd y llwybr yn y blynyddoedd diweddar wedi cynorthwyo wrth leihau tagfeydd traffig difrifol yn y lleoliad yma.



Prynwyd dwy Orsaf Trwsio Beiciau newydd â phympiau teiars integredig newydd y gellir eu defnyddio gan seiclwyr, cadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn.  Mae'r llun isod yn dangos un a osodwyd y tu allan i Ganolfan Hamdden Plascrug yn cael ei ddefnyddio gan seiclwr proffesiynol lleol Stevie Williams o Academi  Rasio SEG.









Gosodwyd yr ail orsaf trwsio beiciau ar bwys y brif fynediad i Gampws Penglais Prifysgol Aberystwyth. Gellir ei weld yn glir gan fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr i'r safle sydd hefyd yn cynnwys Canolfan Chwaraeon boblogaidd.

Bellach mae cyfanswm o 3 orsaf drwsio beiciau a phymiau seiclo wedi eu gosod yn Aberystwyth yn ogystal â phwmp seiclo unigol.

**Cronfa Drafnidiaeth Leol – Pecyn Aberteifi ‘Blwyddyn 2’**

Yn dilyn gwelliannau i’r troedffyrdd a mesurau tawelu traffig o fewn ardal 20mya a gwblhawyd ger yr Ysgol Gynradd yn y flwyddyn flaenorol, gwnaed gwaith y tu allan i Ysgol Uwchradd Abertiefi yn 2017-18. Cyfanswm y pecyn yma oedd £115,000 gyda grant Cronfa Drafnidiaeth Leol o £98,500 oddi wrth Lywodraeth Cymru, £11,500 o gyfraniad arian cyfatebol oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion ac arian cyfatebol o £5,000 oddi wrth Gyngor Tref Abertiefi.




Gosodwyd cysgodfan seiclo newydd yn yr ysgol fel rhan o’r cynllun.



Ar Ffordd Aberystwyth adeiladwyd darn newydd o’r droedffordd ar bwys Siop B&M er mwyn cwblhau’r cyswllt troedffordd. Roedd yn cynnwys nifer o gyrbau isel ac ardaloedd o balmant botymog ar hyd y droedffordd. Hefyd gosodwyd wyneb newydd yn ystod gwaith uwchraddio. Gosodwyd ynys groesi newydd yn y ffordd er mwyn cynorthwyo cerddwyr a’r rheiny sy’n defnyddio offer symudedd i groesi’r ffordd i gyrraedd Tesco’s.




Chwith: Gosodwyd cyswllt troedffordd newydd.

Roedd y gwaith yn Aberteifi hefyd yn cynnwys lledu’r droedffordd ar Ffordd Pont y Cleifion yn dilyn grant ychwanegol o £47,000 oddi wrth Lywodraeth Cymru yn dilyn cwblhau’r gwaith uchod yn gynnar, a thrwy hynny cynyddu cyfanswm gwerth y pecyn ar gyfer Aberteifi i £162,000. Bu i’r arian yma ein galluogi i osod cyrbau isel a darparu gwell cyswllt ar gyfer cadeiriau gwthio a defnyddwyr peiriannau symudedd ar y trywydd yma rhwng Canol y Dref a Pharc Busnes Teifi.



**Cynllun Ffyrdd Diogel mewn Cymunedau Penrhyncoch**

Bu i’r Awdurdod lwyddo derbyn grant Cynllun Ffyrdd Diogel mewn Cymunedau o £102,500 oddi wrth Lywodraeth Cymru, gydag arian cyfatebol o £11,500 oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion a £2,000 oddi wrth Gyngor Cymuned Trefeurig sef gwerth cynllun o £116,000. Derbyniwyd cyfraniadau eraill o fewn y flwyddyn er mwyn gwneud gwelliannau pellach . Roedd gwerth terfynol y cynllun ymron yn £163,000. Gweithredwyd ardal 20mya â mesurau tawelu traffig ffisegol yng nghanol y pentref a oedd yn cynnwys dau fynediad yr Ysgol Gynradd. Cafodd cynlluniau mynedfeydd yr ysgol eu gwella fel rhan o’r cynllun â chroesfannau bwrdd newydd gan ddarparu ffyrdd mwy diogel i’r ysgol.






Bu i staff Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion gysylltu â phreswylwyr ym Mhenrhyncoch er mwyn sichrau cytundebau tir fydd yn ein galluogi i adeiladu troedffordd newydd i gwblhau’r cyswllt rhwng y Swyddfa Bost a Chlwb Cymdeithasol Pêl droed Penrhyncoch / Yr Ysgol.

Mae’r llwybrau diogel i’r ysgol wedi bod o fudd i’r gymuned leol er mwyn sichrau gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau ym Mhenrhyncoch.

Isod: Y Cynghorydd Dai Mason yn defnyddio’r dredffordd newydd lle y mae’r arosfan ar gyfer bysiau hefyd wedi ei huwchraddio.



**Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau Llanbedr Pont Steffan – Blwyddyn 2**

Ym mlwyddyn 1 bu gwelliannau i’r troedffyrdd yn ardal Ysgol Bro Pedr ac ym Mlwyddyn 2 bu gwelliannau i’r cysylltiadau ymhellach o’r ysgol gyda grant o £56,800 oddi wrth Lywodraeth Cymru, arian cyfatebol o £7,000 oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion ac arian cyfatebol o £6,200 oddi wrth Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan sef cyfanswm o £70,000.

Gwnaed gwelliannau i’r droedffordd ar Ffordd y Gogledd ger Clwb Rygbi Llanbedr Pont Steffan. Cafodd y droedffordd ei lledu a gosodwyd wyneb newydd arni gyda chyrbau isel newydd a phalmant botymog. Uwchraddiwyd y cyswllt i gerddwyr i Stad Maes y Felin o lwybr concret garw i lwybr â wyneb tarmac llyfn â bolardiau newydd wedi eu gosod ar ymyl maes parcio’r clwb rygbi i wella diogelwch cerddwyr.

Roedd y cynllun hefyd yn cynnwys darparu man parcio newydd ar gyfer beiciau a sgwteri yn adran Iau Ysgol Bro Pedr er mwyn annog mwy o ddisgyblion i gymryd rhan mewn siwrneiau llesol i’r ysgol.

Mae’r lluniau isod yn dangos y troedffyrdd a uwchraddiwyd a’r man parcio beiciau a sgwteri yn Ysgol Bro Pedr.



Cyswllt cyn y Cynllun i Stad Maes y Felin



Cafodd y droedffordd ei lledu yn Ffordd Gogledd



Llun i'r chwith: Cyn y cynllun

Man parcio beiciau a sgwteri yn adran Iau Ysgol Bro Pedr.




**Gari Jones**
**Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth**
**Gwasanaeth Priffyrdd ac Amgylcheddol**
**Cyngor Sir Ceredigion**
**gwasanaethau.technegol@ceredigion.gov.uk**


**Awst 2018**

GOLUD·GWLAD·RHYDDID
Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Caru·Love Ceredigion